ARWAHANRWYDD CRISTNOGOL —PAM MAE'N LLESOL YMWRTHOD Â'R BYD

Nodyn i'r siaradwr:
Gwnewch yn amlwg i'r gynulleidfa beth yn hollol mae bod ar wahan i'r byd yn ei olygu, ac mewn ffordd anogol, pwysleisiwch pam mae cadw'n arwahanrwydd oddi wrth y byd yn llesol

MAE ARWAHANRWYDD ODDI WRTH Y BYD YN NOD ADNABOD GWIR GRISTNOGAETH (4 mun.)

'Doedd Iesu Grist "ddim yn perthyn i'r byd"; felly ni ddylai ei ddisgyblion chwaith berthyn i'r byd (In 17:16)

Mae hanes yn cadarnhau fod cadw ar wahan i'r byd yn nodwedd amlwg y Cristnogion cynnar (*rs* 272-4)

Nid ydi safonau Duw wedi newid; mae gofyn i Gristnogion heddiw fod ar wahan i'r byd (Iago 4:4)

Fe ofynnodd Iesu i'w Dad ddiogelu ei ddisgyblion wrth iddyn' nhw fel Crist geisio cadw ar wahan i'r byd (In 17:15)

Mae gwir Gristnogion heddiw yn cael arweiniad ac amddiffyn Duw, ac maen' nhw eu hunain yn elwa ac yn gwneud daioni i eraill wrth iddyn' nhw gadw ar wahan i'r byd

MAE CRISTNOGION YN CADW AR WAHAN I FATERION GWLEIDYDDOL Y BYD (12 mun.)

Mae Cristnogion yn cadw'n niwtral o ran materion gwleidyddol y byd (In 18:36; *rs* 269-76)

'Dydyn nhw ddim yn cymryd rhan mewn seremonïau gwladgarol, a 'dydyn nhw ddim chwaith yn ymwneud â gwrthdaro hiliol na dadleuon politicaidd

Rhaid i Gristnogion "ymostwng i'r awdurdodau sy'n ben," sy'n bod drwy ganiatâd Duw ac sy'n cyflawni gwasanaeth buddiol (Rhuf 13:1, 5-7; *w*90 11/1 10-15, 18-22)

Talwch eich trethi ac ufuddhau i bob deddf nad yw'n gwrthdaro â deddf Duw (Mc 12:17)

Parchwch y rhai sydd â swyddi llywodraethol, beth bynnag fo'u hymddygiad personol nhw

Mae llawer budd i'r rhai sy'n cadw ar wahan i'r byd
[Ystyriwch fuddion penodol a phrofiadau cyhoeddedig sy'n pwysleisio gwerth ymarferol safiad y Cristion]

MAE CRISTNOGION YN CADW AR WAHAN I OFEREDD MOESOL Y BYD (12 mun.)

Mae'r byd yn anllad; 'dyw ei olygwedd ar foesoldeb ddim yn cytuno ag un Duw (*w*93 2/15 13)

O safbwynt y Beibl, trosedd ddifrifol yn erbyn côd moesol eglur Duw ydi anfoesoldeb (Ex 20:14, 17; 1Cor 6:9, 10)

Rhaid i grefydd sy'n bur a dilychwin yng ngolwg Duw fod "heb ei ddifwyno gan y byd" (Iago 1:27)

Rhaid ymgadw rhag gweithgareddau cymdeithasol aflesol, cerddoriaeth sy'n llygru, adloniant anfoesol a threisgar, cymdeithasu drwg

Os yw aelod o'r gynulleidfa yn cyflawni anfoesoldeb, mae e'n cael ei helpu i edifarhau a newid ei gwrs (2Cor 2: 5-8; 1In 1:9; 2:1)

Rhaid tynnu'r drwgweithredwyr anedifeiriol allan o'r gynulleidfa (1Cor 5:11-13)

Mae 'na fuddion o gadw ar wahan i'r byd a chadw at safonau moesol uchel y Beibl [Gweler "Bible standards" o dan MORALS yn *Watch Tower Publications Index 1986-1995*]

MAE'R WEINIDOGAETH GYHOEDDUS YN NOD CADARNHAOL ARWAHANRWYDD CRISTNOGOL (12 mun.)

Rhoddodd Iesu orchymyn i bregethu a gwneud disgyblion (Mth 28:19, 20)

'Roedd y Cristnogion cynnar yn enwog am eu hyder yn pregethu'n gyhoeddus ac o dŷ i dŷ (Act 5:28, 42; 20:20)

Dylai pob Cristion gael rhan yn y pregethu i'r graddau sy'n bosib'; mae'n gomisiwn Cristnogol (Mth 24:14)

Mae cael rhan hy a brwdfrydig yn y weinidogaeth yn ein helpu i gadw ar wahan i'r byd; mae'n dod â buddion gwirioneddol sy'n bodloni [Gweler "benefits" o dan FIELD MINISTRY yn *Watch Tower Publications Index 1930-1985* a *1986-1995*. Gellir hefyd ddefnyddio profiadau lleol sydd wedi'u gwirio sy'n pwysleisio fel mae cael rhan weithredol yn y weinidogaeth wedi galluogi rhai i gadw ar wahan i'r byd]

MAE ARWAHANRWYDD CRISTNOGOL YN LLESOL 'NAWR AC YN Y DYFODOL (5 mun.)

Mae gorchmynion Jehofah oll wedi bod yn llesol i'w bobl (Darllen Salm 19:7-11)

Mae gweddi Iesu am i Jehofah warchod ei ddisgyblion wedi'i hateb

Cysur ydi gwybod na all dim ein gwahanu ni oddi wrth gariad Jehofah ac Iesu Grist (Rhuf 8:35, 38, 39)

Wrth inni gadw ar wahan i'r byd, gallwn fod yn sicr y bydd arweiniad ac amddiffyn cariadus Jehofah yn parhau

Mae byw yn nyddiau diwethaf y byd yn gofyn inni fod yn gynyddol effro er mwyn cadw ar wahan

Cyn bo hir bydd yr hen fyd yn cael ei ddifa, a dim ond "nefoedd newydd a daear newydd" cyflawn Jehofah fydd yn aros (2Pedr 3:7, 13)

Mae gan y rhai fydd yn gwneud ewyllys Jehofah a chadw ar wahan i'r byd sail gobaith cael eu gwobrwyo â bywyd tragwyddol ym Mharadwys (Mth 25:34)

Fe fydd lles tragwyddol yn deillio iddyn' nhw o fod wedi cadw eu harwahanrwydd Cristnogol

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)

I'W DRADDODI MEWN 45 MUNUD